Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Addewid gan Gomisiynydd Plant Cymru i Bobl Ifanc sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal.

Gallwch chi ddarllen fersiwn lawn yr addewid yma.

Mae'r fersiwn yma o'n haddewid wedi cael ei chreu ar gyfer plant a phobl ifanc.

Os ydych chi'n cefnogi plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gallwch chi ddefnyddio'r ddogfen yma i'ch helpu.



# Neges gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes MBE:

Dros 20 mlynedd yn ôl, fe wnaeth Cymru greu Comisiynydd Plant.

Mae 3 Comisiynydd wedi gwneud y gwaith o mlaen i, a bydda i'n Gomisiynydd nawr tan 2029.

Mae pob un o'r Comisiynwyr wedi gweithio'n galed i fod yn bencampwyr i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac rydw i eisiau gwneud popeth o fewn fy ngallu i'ch cefnogi chi.

Mae'n fraint i fod yn bencampwr annibynnol i chi, ac rydw i'n falch bod Cymru wedi penderfynu creu Siarter Rhianta Corfforaethol.


Dylai'r Siarteri yma gynnwys addewidion gan bobl sydd â phŵer am beth byddan nhw'n ei wneud i'ch cefnogi chi.

42

Mae gennych chi 42 o hawliau o dan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (CCUHP).

# Hapus, Iach & Diogel

Mae'r hawliau yma'n rhoi i chi y pethau sydd angen arnoach chi i dyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.



Fy ngwaith i yw helpu i wneud yn siŵr bod yr hawliau yma'n cael eu diogelu i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.



Rydw i eisiau i Gymru fod yn wlad lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn:

- deall eu hawliau
- gwybod bod y Comisiynydd Plant yno i sefyll i fyny dros yr hawliau yna
- gallu cael cefnogaeth os bydd angen hynny arnyn nhw.

Rydw i'n gwybod y bydd angen mwy o gefnogaeth ar rai plant a phobl ifanc nag eraill i fwynhau eu hawliau. Dyna pam rydw i'n gwneud rhai Addewidion i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal am sut bydda i'n eich cefnogi chi i gael eich hawliau.

Mae'r Addewid yma'n esbonio sut bydd y tîm a fi yno i chi.


# Fel Swyddfa:



Rydyn ni wedi addo gwrando arnoch chi er mwyn cael gwybod pa faterion sy'n bwysig i chi



Rydyn ni wedi addo helpu i wneud yn siwr bod y gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio yn gwybod am eich hawliau ac yn ystyried eich hawliau wrth wneud penderfyniadau amdanoch chi a'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio



Byddwn ni'n eich cefnogi i godi llais am faterion ac yn sicrhau ein bod ni'n annog newidiadau a fydd yn gwella pethau i blant



Byddwn ni bob amser yn herio eraill i sicrhau eich bod chi'n derbyn eich hawliau. Byddwn ni ddim yn ofni tynnu sylw at wasanaethau gwael, penderfyniadau gwael a dewisiadau gwael os ydyn nhw'n cael effaith negyddol ar eich bywyd




Bydda i'n gwneud yn siŵr bod y Tîm Rheoli yma yn cadw golwg ar ein holl addewidion ac yn addo trafod beth rydyn ni wedi gwneud i wireddu ein haddewidion bob tri mis.
Byddwn ni'n adrodd yn ôl i chi yn ein Hadroddiad Blynyddol.



Bydda i hefyd yn annog gwasanaethau ar draws y wlad sy'n cefnogi pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i ystyried sut gallan nhw egluro wrth bobl ifanc sut byddan nhw'n cadw eu haddewidion fel Rhieni Corfforaethol.

# Ein Haddewidion

Yn ein haddewidion i chi, rydyn ni wedi cynnwys gwybodaeth o dan dri phennawd:

**Yr addewid sydd yn y Siarter**
*Dyma Siarter Llywodraeth Cymru*

***Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud***
*Dyma addewid ein swyddfa ni*

**Cysylltiad**
*Rydyn ni wedi cysylltu'r siarter â'ch hawliau chi*

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Yr Addewid sydd yn y Siarter

1

Byddwn ni'n cymryd amser i wrando ar bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal ac yn sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed a'u hystyried yn weithredol ym mhob penderfyniad sy'n cael ei wneud amdanyn nhw.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Bydd ein tîm yn cwrdd yn rheolaidd â grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, i wneud yn siwr ein bod ni'n defnyddio'u lleisiau yn ein gwaith.

Byddwn ni'n gwneud hynny mewn dwy ffordd:

- Trwy weithio gyda chi fel unigolyn a,
- Thrwy gynnwys eich lleisiau yn ein cynlluniau.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Unigolion**
Bydd ein tîm cyngor bob amser yn gwrando arnoch chi er mwyn deall beth sy’n bwysig i chi.
Gyda’ch caniatâd chi byddwn ni’n eich helpu i herio gwasanaethau er mwyn gwneud yn siwr eich bod yn derbyn eich hawliau.

**Eich llais chi yn ein cynlluniau ni**
Bydd Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd hyn yn gwneud yn siwr ein bod ni’n cael adborth gwerthfawr ar ein gwaith.

Byddwn ni’n gweithio gyda grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i wneud yn siwr ein bod ni’n gwrando arnyn nhw ac yn clywed am faterion sy’n effeithio arnyn nhw.

## Cysylltiad â’ch hawliau










Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

2

## Yr Addewid sydd yn y Siarter

Byddwn ni'n trin pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal â pharch.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Byddwn ni bob amser yn ceisio herio pob stereoteip o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Byddwn ni'n codi llais os na fydd y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu trin yn deg.

Byddwn ni'n dysgu gan y bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yr ydyn ni'n gweithio gyda nhw. Byddwn ni'n rhannu'r dysgu yna gyda phawb sy'n gweithio yn ein swyddfa.

## Cysylltiad â'ch hawliau







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

3

## Yr Addewid sydd yn y Siarter

Byddwn ni'n cynnwys pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanyn nhw.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael cyfle i fwydo i'n gwaith. Gallai hynny ddigwydd trwy ein Cynllun Llysgenhadon Cymunedol, trwy gyfarfodydd, ymweliadau grŵp, ein panel ymgynghorol neu ein gwaith cyngor a chymorth.

Bydd hyn yn ein helpu i wneud yn siwr ein bod ni'n gwrando ar amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau ac yn eu hadlewyrchu yn ein gwaith.

## Cysylltiad â'ch hawliau






# 4

## Yr Addewid sydd yn y Siarter

Byddwn ni'n rhoi gwybodaeth reolaidd i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am ein cysylltiad â nhw ac yn egluro wrthyn nhw beth rydyn ni'n ei wneud.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Byddwn ni'n atebol i chi, mewn llawer o ffyrdd:

- Byddwn ni'n cynnwys gwybodaeth am ein gwaith ar yr addewidion yma yn ein Hadroddiad Blynyddol. Byddwn ni hefyd yn cynnwys ein Paneli Ymgynghorol a'n Pwyllgorau Senedd.
- Byddwn ni'n uniongyrchol atebol i'r Senedd Ieuenctid ac yn rhan o Uwchgynhadledd Pobl Ifanc â phrofiad o ofal Llywodraeth Cymru er mwyn egluro sut rydyn ni wedi bod yn gweithio at gadw ein haddewidion.
- Os byddwch chi'n cysylltu â ni, byddwn ni bob amser yn rhoi gwybod i chi sut rydyn ni wedi datblygu'r materion rydych chi'n eu codi gyda ni.

## Cysylltiad â'ch hawliau




Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# 5

## Yr Addewid sydd yn y Siarter

Byddwn ni'n defnyddio iaith syml wrth gyfathrebu gyda phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Byddwn ni'n defnyddio iaith glir wrth baratoi dogfennau.

Byddwn ni'n creu gwahanol fersiynau o'n hadnoddau neu ein harolygon, er mwyn i chi fedru dewis y fersiwn fwyaf addas i chi.

Byddwn ni hefyd yn eich cefnogi i herio iaith dydych chi ddim yn meddwl sy'n briodol.

## Cysylltiad â'ch hawliau







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# 6 Yr Addewid sydd yn y Siarter

Byddwn ni'n dangos tosturi wrth ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Mae gan ein swyddfa gynllun dysgu a datblygu i'r tîm cyfan. Rydyn ni'n cynnal ymweliadau a hyfforddiant i'r holl staff i wella ein dealltwriaeth o brofiadau bywyd.

Byddwn ni'n parhau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn defnyddio Canllawiau Y Ffordd Gywir a'n gweithdai hawliau i wneud hyn.

## Cysylltiad â'ch hawliau







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# 7

## Yr Addewid sydd yn y Siarter

Byddwn ni'n gweithio gyda phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal i'w helpu i gyflawni eu nodau.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Rydyn ni'n cynnig nifer bach o leoliadau gwaith bob blwyddyn i bobl ifanc sydd ag ystod amrywiol o brofiadau, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

## Cysylltiad â'ch hawliau



# 8

## Yr Addewid sydd yn y Siarter


Byddwn ni'n rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal beth yw'r broses ar gyfer cwyno os byddan nhw'n teimlo ein bod ni ddim yn cadw at y siarter hon.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Mae ein tîm Cyngor yno i gefnogi unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd ddim yn teimlo eu bod nhw'n derbyn eu hawliau.

Yn ystod y tair blynedd nesaf, rydw i wedi cytuno i greu polisi cwynion i blant. Bydd y polisi yma ar gael i sefydliadau eraill ei gopïo.
Bydd yn helpu plant i godi eu pryderon.
Bydda i'n gwneud yn siŵr bod pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn rhan o greu hyn.

## Cysylltiad â'ch hawliau







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

9

## Yr Addewid sydd yn y Siarter

Byddwn ni'n rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal fod ganddyn nhw hawl i dderbyn eiriolaeth annibynnol er mwyn sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, neu pan fyddan nhw'n anhapus ac eisiau i rywbeth stopio, cychwyn neu newid.

## Dyma beth fydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gwneud:

Bydd ein tîm Cyngor  yn rhoi cyngor a chefnogaeth i blant a'r oedolion sy'n eu cefnogi, er mwyn gwneud yn siwr bod gwasanaethau'n gwneud pob peth posibl i warchod lles plant.

Byddwn ni bob amser yn gofyn i bobl ifanc ydyn nhw'n fodlon i ni eiriol ar eu rhan.

Byddwn ni bob amser yn rhannu gwybodaeth gyda phobl ifanc am y sgyrsiau rydyn ni wedi'u cael.

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru bwerau unigryw i hybu newid cadarnhaol i blant. Mae hynny'n cynnwys edrych ar sut mae gwahanol wasanaethau yn darparu eiriolaeth a chefnogaeth i godi cwynion.

Mae'r Comisiynydd yn bencampwr annibynnol dros blant, ac mae'n gallu rhoi cyngor a chymorth i blant sydd ddim yn derbyn eu hawliau o bosib. Gallwch chi gael y gefnogaeth yma trwy gysylltu â'n Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor.

## Cysylltiad â'ch hawliau

